Adam Price AC
Y Comisiynydd Ieithoedd Swyddogol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Cardiff
CF99 1NA

31 Mai 2017

Annwyl Adam

**Cynllun Ieithoedd Swyddogol Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Diolch i chi am fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 10 Mai ac am ateb cwestiynau'r Aelodau ynghylch Cynllun Ieithoedd Swyddogol drafft y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer y Pumed Cynulliad.

<u>Cyffredinol</u>

Yn fras, roedd yr Aelodau yn fodlon ar y cynllun ac roeddent yn cydnabod y gefnogaeth ragorol ar y cyfan y maent yn ei derbyn i'w helpu i gynnal eu gwaith yn nwy iaith swyddogol y Cynulliad.

Fe wnaeth yr Aelodau hefyd nodi'r ymatebion a gafodd y Pwyllgor i'r ymgynghoriad. Trafodwyd nifer o'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad yn ystod y sesiwn gwestiynu. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau y byddwch chi a'ch swyddogion yn ystyried yr holl bwyntiau a godwyd, a gafodd eu cyhoeddi ar wefan y Cynulliad, a hynny cyn y gofynnir yn swyddogol i'r Cynulliad fabwysiadu'r cynllun.

<u>Rhagor o Wybodaeth</u>

Mewn ambell faes penodol, gwnaethoch nodi eich bod yn bwriadu rhoi rhagor o ystyriaeth i'r materion a godwyd gan Aelodau neu roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor. Dyma'r meysydd dan sylw:

- *Hygyrchedd gwefan y Cynulliad i bobl sydd â nam ar eu golwg.* Nododd un Aelod nad oedd y fersiwn Gymraeg o'r rhyngwyneb yn ddealladwy yn y Gymraeg gan ei fod mewn Saesneg ffonetig. Gwnaethoch gytuno i ystyried y mater hwn ymhellach.

- *Microsoft Translator.* Gwnaethoch gytuno i ystyried a all y system Microsoft Translator gynnig gwersi ar gyfer sgiliau iaith defnyddwyr a'r rheiny sy'n defnyddio'r system.
- *Targedau gwella.* Gwnaethoch esbonio nad oedd Comisiwn y Cynulliad wedi'i argyhoeddi mai gosod targedau meintiol oedd y ffordd orau o gyflawni'r prif nod o gael sefydliad gwirioneddol ddwyieithog. Fodd bynnag, gwnaethoch gytuno ei bod yn bwysig i'r Cynulliad a sefydliadau allanol allu dal y Comisiwn i gyfrif o ran yr hyn a gyflawnir. Hwyrach yr hoffech ystyried ymhellach sut y gellir gwneud hyn yn ymarferol.

<u>Problemau recriwtio</u>

Mae un maes y mae'r Pwyllgor yn credu y dylid darparu rhagor o wybodaeth yn ei gylch cyn mabwysiadu'r cynllun.  Mae'r maes hwn yn ymwneud â'r dull newydd o recriwtio a nodir yn y cynllun drafft.

Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r symud hwn at fframwaith rhuglder newydd, yr ydym ar ddeall a fydd yn seiliedig ar radd chwe phwynt â'r lefel isaf yn golygu dim hyfedredd Cymraeg a'r lefel uchaf yn golygu hyfedredd ar lefel arbenigol ac uchel iawn. Y bwriad yw iddi fod yn ofynnol i holl staff newydd y Cynulliad ddangos hyfedredd lefel 1 ar y raddfa hon, a ddisgrifir i fod yn 'gwrteisi ieithyddol sylfaenol'.

Prin yw'r wybodaeth yn y cynllun drafft ynghylch sut y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol.  Fodd bynnag, gwnaethoch gadarnhau na fyddai'r dull newydd yn gymwys (oni bai y'i dewisir yn wirfoddol) i staff cyfredol, ac na fyddai'r gallu i siarad Cymraeg yn rhan allweddol o benderfyniadau ynghylch dyrchafu staff.

Er hyn, nid yw'n glir gennym sut y bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud ynghylch pa lefel benodol ar y raddfa a fydd yn ddisgwyliedig ar gyfer gwahanol swyddi yn y Cynulliad.  Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael gwybodaeth bellach ynghylch sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol yn ogystal â'r math o ffactorau a gaiff eu hystyried wrth wneud y penderfyniadau hyn.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu rhywfaint y gallai'r gofyniad i'r holl staff newydd gyrraedd safon 'cwrteisi ieithyddol sylfaenol' effeithio ar y modd y gallwn recriwtio staff o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.  Gwnaethoch nodi rhai o'r mesurau lliniaru sydd gennych mewn golwg er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, yn arbennig ar gyfer grwpiau BME.  Hefyd, fe wnaethoch nodi y paratowyd Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb, sydd ar hyn o bryd yn cael ei ystyried gan sefydliad arbenigol a fydd yn rhoi adborth i chi yn ei gylch.

Yn amlwg, dyma ran pwysig o benderfynu a yw'r mesurau lliniaru yn y maes hwn yn ddigonol. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar felly pe gallai weld yr asesiad a'r adborth y byddwch yn ei dderbyn gan y sefydliad arbenigol cyn y gofynnir i'r Cynulliad gymeradwyo'r cynllun.

Yn gywir

Bethan Jenkins

**Bethan Jenkins AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**